

Llythyr at ddysgwyr yng Nghymru

8 Ionawr 2021



Annwyl dysgwr

### **TGAU, UG/Safon Uwch a Galwedigaethol, beth ddylwn i ei wneud nawr?**

Os nad ydych wedi clywed amdanom o'r blaen, Cymwysterau Cymru sy'n sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru'n y gorau y gallan nhw fod ar gyfer dysgwyr. Rydyn yn sicrhau bod y rhai sy'n creu arholiadau ac asesiadau, fel CBAC, yn creu arholiadau ac asesiadau mewn ffordd briodol ac i safon uchel.

### **Beth sy'n newid?**

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog heddiw (8 Ionawr 2021) lle bydd nifer yn parhau i ddysgu o bell tan 29 Ionawr neu hyd yn oed hanner tymor mis Chwefror o bosibl, rydym wedi cyhoeddi ni fydd asesiadau mewnol y gwanwyn, y bwriadwyd eu cynnal rhwng 22 Chwefror a 23 Ebrill, ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yn cymryd lle. Bydd trefnidau arall yn lle.

Roedd hon yn ffenestr asesu newydd a gyhoeddwyd cyn y Nadolig fel rhan o drefniadau newydd i ddyfarnu'r cymwysterau hyn yn Haf 2021.

### **Pam mae'n newid?**

Rydym wedi penderfynu gwneud hyn oherwydd efallai na fyddwch yn cael digon o amser gyda'ch athrawon/darlithwyr i baratoi ar gyfer eich asesiadau.

### **Fel mae'n newid?**

Rydym yn gweithio gyda grŵp o benaethiaid ac arweinwyr colegau, a sefydlwyd gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, o'r enw'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni. Bydd y grŵp hwn nawr yn ystyried y ffordd ymlaen a bydd gwybodaeth fanylach am drefniadau diwygiedig ar gael yn fuan.

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Mae'r asesiadau ar gyfer rhai cymwysterau galwedigaethol yn dal i fod ar gael ym mis Ionawr ar gyfer dysgwyr sy'n barod ac yn gallu eu cymryd. Os na allwch sefyll eich arholiadau nawr, cewch gyfle i gael eich asesu yn yr haf.

### **Cefnogaeth**

Rydym yn gwybod y gallech fod yn bryderus am yr hyn y mae'n ei olygu i chi a rydych chi am gael eglurder ar sut a phryd y cewch eich asesu cyn gynted â phosibl. Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth cyn gynted ag y gallwn.

Byddwn yn sicrhau y bydd y newidiadau yn golygu y bydd gennych gyfle teg i ennill eich cymwysterau eleni - dyma ein ffocws. Yn y cyfamser, os ydych chi'n poeni am unrhyw fater a nodwyd uchod, trafodwch â'ch ysgol, coleg neu ble bynnag rydych chi'n cael eich addysg.

Byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd ar ein gwefan, os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at [cyfathrebu@cymwysteraucymru.org](mailto:cyfathrebu@cymwysteraucymru.org).

Yn gywir



Philip Blaker  
Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru